DATGANIAD BUDD Y CYHOEDD MEDI 2022

CANOLFAN BRIFYSGOL CAMBRIA UNIVERSITY CENTRE

Manylion y Darparwr

Coleg Cambria, Ffordd Parc y Gelli, Wrecsam, LL12 7AB

Budd y Cyhoedd

Mae'r coleg yn cyhoeddi'r datganiad budd y cyhoedd yn ei gyfrifon bob blwyddyn. Dyma ddyfyniad o ddatganiadau ariannol 2021:

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig, a Llywodraeth Cymru sy'n ei reoleiddio fel Prif Reoleiddiwr yr holl gorfforaethau addysg bellach yng Nghymru. Nodir enwau aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen, ar dudalen 16. Wrth bennu ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae'r Corff Llywodraethu wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn enwedig i'w ganllawiau atodol ar hyrwyddo addysg. Mae'r canllawiau yn nodi'r gofyniad fod rhaid i bob sefydliad sy'n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos yn ddiamwys bod eu hamcanion er budd y cyhoedd. Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae'r Coleg yn darparu'r buddion cyhoeddus penodol a ganlyn trwy hyrwyddo addysg:

- Addysgu ansawdd uchel
- Ehangu cyfranogiad a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
- Tystiolaeth ragorol o sicrhau cyflogaeth i fyfyrwyr
- Systemau cymorth cadarn i fyfyrwyr
- Cysylltiadau â chyflogwyr, diwydiant a masnach

Datganiad Budd y Cyhoedd (Addysg Uwch)

Mae'r datganiad isod yn ymhelaethu ar yr uchod i ddarparu datganiad budd y cyhoedd ar gyfer ein darpariaeth Addysg Uwch (AU). Dylid darllen y datganiad ar y cyd â'r dogfennau a ganlyn:

- Strategaeth AU 2020-2023
- Cyfrannu at ein cymuned
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Cynllun Budd y Cyhoedd Addysg Uwch

Nodau Buddsoddi/Ehangu Cyfranogiad

Mae'r coleg yn buddsoddi tua 26% o'r incwm ffioedd dysgu mewn gweithgareddau i ehangu cyfranogiad a hyrwyddo cyfleoedd mewn AU. Trwy ein rhaglenni AU a'r Cynllun Budd y Cyhoedd hwn rydym yn bodloni'r blaenoriaethau strategol y gwnaethom eu gosod i ni'n hunain ar gyfer AU.

Trwy'r cynllun hwn a'n Strategaeth AU gyfredol rydym yn:

1. Ehangu mynediad i AU ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
2. Cau'r bwlch yng nghyfraddau llwyddiant dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
3. Cynyddu dilyniant ein dysgwyr Lefel 3 i ddysgu lefel uwch.
4. Cefnogi'r economi leol drwy ddatblygu'r gweithlu lleol gyda nodweddion sgiliau lefel uwch.
5. Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio rhywfaint o'u rhaglen neu'r rhaglen gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
6. Cyfrannu at gynyddu % y boblogaeth waith leol sydd â chymwysterau lefel uwch.

Partneriaeth Myfyrwyr a Goruchwyliaeth Lywodraethol

Mae gennym gynllun Llais Myfyrwyr AU cadarn sy'n cynnwys o leiaf 2 gyfarfod y flwyddyn gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr AU o bob maes. Cedwir Cofnod Gweithredu bob blwyddyn, a chaiff poster 'Gyda'n Gilydd Gwnaethom' ei greu yn nodi manylion am brif gyflawniadau'r flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Caiff Cynrychiolwyr Myfyrwyr AU eu gwahodd i gyfarfodydd ein Grŵp Llywio AU a Mynediad 6 gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Myfyrwyr AU a Chynrychiolwyr Myfyrwyr AU hefyd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Cyfansoddiadol Myfyrwyr Coleg ehangach, fel dod yn Is-lywydd Myfyrwyr neu'n Llywodraethwr Myfyrwyr. Caiff diweddariadau eu rhannu gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Llywodraethwyr.

Gweledigaeth ar gyfer Addysg Uwch

Mae ein Strategaeth AU yn amlinellu ein bwriad i wneud "newid sylweddol" yn ein darpariaeth AU.

Drwy gydweithio'n uchelgeisiol â phartneriaid, cyflogwyr a rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol allweddol y Brifysgol, y bwriad yw y bydd llawer rhagor o fyfyrwyr yn astudio ar Lefelau 4, 5 ac uwch o fewn portffolio cwricwlwm ehangach ac amrywiol. Bydd y rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol a fydd yn cefnogi ein cymuned leol yn uniongyrchol, i gael cyflogaeth dra medrus yn y rhanbarth. Bydd ethos cryf o ehangu cyfranogiad yn sail i'n gwaith a byddwn yn parhau i wasanaethu ein cymuned leol yn dda. Byddwn yn sicrhau bod gan bob grŵp o fyfyrwyr (ni waeth beth yw eu cefndir) bwyntiau mynediad priodol er mwyn iddynt allu cyrchu ein darpariaeth a'n bod yn darparu'r cymorth angenrheidiol i'r rhai a all fod ei angen.

Blaenoriaeth Strategol ar gyfer Addysg Uwch

Perthnasau Partneriaid Allweddol:
Datblygu perthnasau mwy sylweddol gyda'r sector AU trwy weithio fel partneriaid allweddol gyda llai o Brifysgolion.

Cwricwlwm Hyblyg sy'n Canolbwyntio ar Yrfa:
Gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid yn y Brifysgol i ddatblygu cryfderau presennol a datblygu llwybrau cwricwlwm llawn amser a rhan amser newydd ac arloesol sy'n cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth sgiliau rhanbarthol a chenedlaethol.

Cydweithio Cydlynol:
Datblygu prosiectau cydweithredol creadigol sy'n arwain y sector i ddangos sut y gall Addysg Bellach (AB) ac AU weithio gyda'i gilydd.

Ethos AU:
Datblygu ethos "Canolfan Brifysgol" unigryw o ansawdd uchel ar draws yr holl ddarpariaeth AU.

Y Darparwr Rhanbarthol Delfrydol:
Dod yn ddarparwr AU lleol delfrydol.

Nodau Ehangu Cyfranogiad

Mae gan Goleg Cambria hanes hir o lwyddo wrth ehangu mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae wrth wraidd ein gwerthoedd ac mae'n nodwedd gref yn ein Strategaeth Addysg Uwch gyfredol. Rydym wedi ymrwymo i strategaethau ar gyfer ehangu mynediad i Addysg Uwch yn ogystal â sicrhau llwyddiant myfyrwyr sydd yn ei dro yn gwella'r cyfleoedd dilyniant ar gyfer ein cymuned myfyrwyr Addysg Uwch.

Drwy ein Rhaglenni Addysg Uwch a'r Cynllun Budd y Cyhoedd hwn rydym yn cyflawni'r blaenoriaethau strategol yr ydym wedi'u gosod i'n hunain ar gyfer Addysg Uwch, sef:

- Ehangu mynediad i addysg uwch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Parhau i werthuso setiau data amrywiol ein myfyrwyr a'r grwpiau categori heb gynrychiolaeth ddigonol y maent yn perthyn iddynt fel y gellir gwahaniaethu rhwng cynlluniau'r dyfodol i gefnogi'r dysgwyr hyn a'u hanghenion i gael mynediad, i lwyddo ac i symud ymlaen ar eu taith Addysg Uwch
- Gan barhau i archwilio unrhyw fylchau yng nghyfraddau llwyddiant dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy brosesau monitro ansawdd haws a hygyrch, bydd unrhyw fylchau a ddadansoddwyd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gwella parhaus yn y dyfodol ar lefel rhaglen a strategol
- Cydweithio'n agos ag Ymgyrraedd yn Ehangach a darparwyr Addysg Uwch eraill i wella mynediad, llwyddiant a dilyniant ar gyfer ein grwpiau myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol i astudio ar lefel prifysgol
- Anelu at gynyddu dilyniant ein dysgwyr Lefel 3 i ddysgu uwch, hyd at y cyfartaledd cenedlaethol o leiaf
- Cefnogi'r economi leol drwy ddatblygu'r gweithlu lleol â sgiliau lefel uwch
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio rhywfaint o'u rhaglen neu'r rhaglen gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Cyfrannu at gynyddu % y boblogaeth waith leol sydd â chymwysterau lefel uwch.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Barhau i ddylunio a gweithredu ystod ehangach o raglenni addysg uwch sy'n berthnasol yn alwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau uwch a gradd, gyda chyfleoedd dilyniant lle bo'n berthnasol
- Dylunio dulliau cyflwyno sy'n galluogi myfyrwyr i astudio wrth weithio
- Targedu hyrwyddo cyfleoedd addysg uwch i ddysgwyr o ardaloedd cyfranogiad isel a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy gydweithio ag Ymgyrraedd yn Ehangach a darparwyr Addysg Uwch eraill
- Codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd dilyniant a'r cymorth sydd ar gael i'n myfyrwyr Lefel 3 trwy gydweithio traws-golegol penodol
- Paratoi myfyrwyr ar gyfer trosglwyddo o Addysg Bellach i Addysg Uwch, yn enwedig oedolion sydd heb astudio am gyfnod, gan ddefnyddio'r timau arbenigol sydd ar gael yng Ngholeg Cambria
- Darparu cymorth astudio ychwanegol drwy ein tîm cymorth llyfrgell tra medrus ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch i hwyluso llwyddiant ar eu rhaglen
- Darparu profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr trwy wella sgiliau addysgu a dysgu, gan gynnwys yr laith Gymraeg
- Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw trwy addysg ac annog myfyrwyr i gymryd rhan yn Cambria Heini
- Rhoi sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr
- Parhau i wella ein systemau cofnodi data fel ein bod mewn sefyllfa well i werthuso anghenion mynediad, llwyddiant a dilyniant penodol ein cymuned o fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.